# Rhestr wirio ar gyfer cynllunio cyfalaf 1/2

Archwilio Cymru
Audit Wales

Rydym wedi llunio'r rhestr wirio hon fel offeryn y gallai cynghorau ei chael yn ddefnyddiol i asesu eu trefniadau cynllunio cyfalaf a nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Mae hyn yn cael ei lywio gan ein canfyddiadau, canllawiau ymarfer, a'n gwybodaeth am y sector.

| Thema | Mater | Cwestiynau i'w hystyried | Hunanasesiad |
|---|---|---|---|
| Cyd-destun strategol | Nid yw cynlluniau cyfalaf yn nodi'n glir effeithiau polisïau cenedlaethol a sut mae hyn wedi eu siapio | A yw'r cynllun cyfalaf yn nodi'r cyd-destun strategol ar gyfer cynllunio cyfalaf? Er enghraifft:<br><br>• heriau hysbys sy'n wynebu'r cyngor;<br>• bylchau yng ngwybodaeth y cyngor a'r camau sydd eu hangen i'w cau nhw; a<br>• pholisïau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol sy'n effeithio ar gynlluniau cyfalaf. | |
| Nodau ac Amcanion | Mae cynlluniau cyfalaf cynghorau yn canolbwyntio ar sicrhau eu bod yn dilyn rheolau benthyca yn hytrach na gosod gweledigaeth strategol ar gyfer eu gwariant cyfalaf<br><br>Nid yw cynghorau yn dangos yn glir sut mae eu cynlluniau cyfalaf yn cefnogi'r broses o gyflawni eu hamcanion llesiant | A yw'r cynllun cyfalaf yn cwmpasu'r tymor byr a'r hirdymor?<br><br>A yw'r cynllun cyfalaf yn cynnwys nodau ac amcanion clir?<br><br>Er enghraifft:<br>• uchelgais hirdymor at ddibenion buddsoddi cyfalaf yn ardal y cyngor;<br>• set o amcanion clir sy'n cefnogi cyflawni uchelgais y cyngor; a<br>• manylion am sut y bydd yn cefnogi amcanion ehangach y cyngor | |
| Canolbwyntio ar ganlyniadau | Nid yw cynghorau yn esbonio'n glir eu nodau cynllunio cyfalaf | A yw'r cyngor wedi nodi:<br>• sut mae llwyddiant yn edrych ar gyfer y cynllun cyfan;<br>• sut mae llwyddiant yn edrych ar gyfer prosiectau unigol; a<br>• sut y bydd yn mesur ac yn monitro hyn. | |
| Gwybod am gyflwr asedau | Yn gyffredinol, nid oes gan gynghorau ddealltwriaeth gynhwysfawr o gyflwr eu holl asedau | A yw cynllun cyfalaf y cyngor yn cael ei lywio gan wybodaeth diweddar, cywir a chynhwysfawr am gyflwr asedau?<br><br>A yw cynllun cyfalaf y cyngor yn cynnwys cynllun cynnal a chadw sy'n seiliedig ar gostau realistig?<br><br>A yw'r cyngor wedi asesu pa asedau sydd eu hangen arno i gyflawni ei amcanion llesiant yn llwyddiannus, a faint y byddant yn eu costio?<br><br>A yw'r cyngor wedi ystyried amrywiaeth o ddewisiadau mewn ymateb i arolygon cyflwr – er enghraifft cydleoli neu ailgynllunio gwasanaethau? | |

# Rhestr wirio ar gyfer cynllunio cyfalaf 2/2

Archwilio Cymru
Audit Wales

| Thema | Mater | Cwestiynau i'w hystyried | Hunanasesiad |
| --- | --- | --- | --- |
| Gweithio gydag eraill | Mae cyfle i gynghorau weithio'n agosach gyda phartneriaid wrth iddynt gynllunio eu gwariant cyfalaf | A yw'r cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid i:<br>• nodi cyfleoedd i gynllunio a chyflawni prosiectau cyfalaf ar y cyd;<br>• sicrhau bod cynlluniau cyfalaf yn cael eu cysoni, gan gynnwys nodi blaenoriaethau cydfuddiannol y gall cynlluniau cyfalaf helpu i'w cyflawni; ac<br>• archwilio cyfuno gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau i wella cynllunio cyfalaf. | |
| Cynllunio ar gyfer risg ac asesu effaith | Nid yw cynlluniau cyfalaf yn glir ynghylch sut y byddant yn helpu i leihau risgiau cyfalaf cynghorau<br><br>Nid yw cynghorau yn asesu'n glir gydraddoldeb ac effaith economaidd-gymdeithasol eu cynlluniau cyfalaf | A yw'r Cyngor:<br>• yn cwblhau asesiadau effaith ar gyfer pob prosiect;<br>• yn asesu effaith cynlluniau cyfalaf ar y cyfan;<br>• yn nodi'r canlyniadau economaidd gymdeithasol arfaethedig ar gyfer preswylwyr mewn cynlluniau cyfalaf;<br>• yn sicrhau bod risgiau cyfalaf yn cael eu hasesu a'u cofnodi; ac<br>• yn nodi sut y bydd risgiau cyfalaf yn cael eu lliniaru mewn cynlluniau cyfalaf. | |
| Deall gofynion adnoddau | Nid yw cynlluniau cyfalaf yn glir ynghylch sut y byddant yn helpu i leihau risgiau cyfalaf cynghorau<br><br>Mae diffyg capasiti swyddogion yn cyfyngu ar allu rhai cynghorau i ddatblygu eu cynlluniau cyfalaf | A yw'r cyngor:<br><br>• yn nodi costau realistig ar gyfer yr asedau newydd a'r gwaith cynnal a chadw sydd eu hangen arno i gyflawni ei amcanion;<br>• yn nodi'r lefel darbodus a fforddiadwy o gyllid sydd ar gael (yn fewnol ac yn allanol) dros y tymor canolig;<br>• yn cyfrifo ac yn cyfathrebu bwlch cyllido cyfalaf yn seiliedig ar yr anghenion a nodir a'r cyllid sydd ar gael;<br>• yn nodi sut y bydd y bwlch yn cael ei reoli a'i liniaru; ac<br>• yn cynnwys ystyried adnoddau anariannol mewn cynlluniau, megis y capasiti contractwyr a'r contractwyr sydd ar gael. | |
| Monitro cynnydd ac effaith | Mae'r mwyafrif o'r cynghorau yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd prosiectau cyfalaf, ond ar fonitro'r gyllideb y mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf | A yw'r cyngor:<br>• yn adrodd yn gyhoeddus yn rheolaidd ar y cynnydd wrth gyflawni ei gynllun cyfalaf;<br>• yn adrodd yn rheolaidd ar yr effeithiau a'r canlyniadau a gyflawnir o brosiectau cyfalaf; ac<br>• yn cynnwys gwybodaeth ariannol allweddol, megis cymharu costau prosiectau gwirioneddol â chostau arfaethedig. | |
| Cefnogi goruchwyliaeth a gwaith craffu | Yn aml, nid yw cynghorwyr yn cael hyfforddiant i'w helpu i oruchwylio cynllunio cyfalaf | A yw'r cyngor yn sicrhau bod cynghorwyr yn gallu cael hyfforddiant a datblygiad i'w galluogi i: • wneud penderfyniadau gwybodus ar gynlluniau a phrosiectau cyfalaf; a • chraffu'n effeithiol ar gynnydd a gwerth am arian cynlluniau a phrosiectau cyfalaf. | |